# Minutes of Culture, Tourism & Communications Committee
# Wednesday, 25 October 2023, at 6.30 pm
# Meeting via Zoom only

**Councillors Present** Cllrs Rob Marshall (Chair), Martin O'Neill, Tim Zhou, Angela O'Connor Richard Jarvis and Rhian Evans.

**Co-opted members** Pip Reason

**Officer Present:** Kerry-Leigh Grabham – Clerk and Ian Hughes – Committee Support Officer (CSO)

CT2310-01 **Apologies for Absence**
Rhian Evans

CT2310-02 **Declarations of Interest**
None

CT2310-03 **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**
**Resolved:** To approve the meeting minutes held on 27 September 2023 as an accurate record. Proposed by Cllr O'Neill and seconded by Cllr Marshall.

CT2310-04 **Update on previous actions (27.09.2023)**

**RESOLVED** Outstanding actions updated and completed, details recorded in 'action' report. Cllr O'Connor joined the meeting at 6.43pm whilst outstanding actions were being discussed.

CT2310-05 **Co-Opted Member Update**
The membership of Liz Fuller as a co-opted member was approved at the last Full Council Meeting. Cllr Marshall explained that Liz Fuller was unfortunately unlikely to attend tonight's meeting due to visiting a relative in hospital.

CT2310-06 **Budget Monitoring Report to 31/08/2023**
The Clerk outlined key points from the Budget Monitoring Report.

**RESOLVED** the Budget Monitoring Report was accepted.

CT2310-07

**Budget 2024/25**

Discussion concerning how the committee could best use its budget in the forthcoming year including projects outlined below in separate agenda items.

**ACTION**: All councillors to identify unspent areas/opportunities and to present any proposals at November Meeting and submit Budget Proposal Forms to RFO by 30th November 2023.

CT2310-08

**Budget Proposals**

Again, much of the discussion centred on projects covered below. In addition, it was agreed that options be explored for Mumbles to obtain new Christmas lights and decorations for 2024.

**ACTION**: Cllr O'Connor together with The Clerk to explore the cost and options for Christmas Lights/Decorations for 2024.

CT2310-09

**Presentation by Paul Relf (Funding & Grants SCC)**

Paul Relf is unable to attend committee meetings on a Wednesday evening due to an on-going commitment. He has however agreed to provide MCC with an information package. Paul has been e-mailed by both The Clerk and CSO in following up this offer, Cllr Marshall is due to meet with Paul within the next seven days and will make a further request.

**ACTION**: Cllr Marshall to make a further request to Paul Relf in relation to the information package he offered to provide MCC.

CT2310-10

**Welsh Event Update**

The opportunities for a Welsh Event were discussed during the outstanding actions CT2310-04 when it was agreed that an event on March 1st, 2024, would be a specific agenda item at the November Meeting.

**RESOLVED** that a separate agenda item would be created for November Meeting celebrating St David's Day.

CT2310-11

**Cliff Lighting Proposal**

Cllr Marshall outlined that the quotes for the cliff lighting were out of date and that Claire was researching new quotes.

**ACTION**: Claire to make enquiries concerning suitable quotes.

CT2310-12 **Recording and Streaming Equipment**

Cllr Marshall discussed the use of I-Phone technology to record and disseminate local events on social media and other outlets. This user-friendly equipment, whilst not necessarily the cheapest option would allow extensive use by all staff and councillors.

**ACTION**: Cllr Marshall to explore the cost and options of using I-Phones for recording events within MCC.

CT2310-13 **MumblesFest 2024**

Cllr Marshall outlined that together with Cllrs O'Neill, O'Connor and RFO he would be working on a firm proposal for the November Meeting,

**ACTION**: Cllr Marshall in conjunction with others to prepare detailed proposals for the MumblesFest 2024 Event. Agenda item for November Meeting.

CT2310-14 **A Christmas Cheese and Wine evening**

Discussion on holding a cheese and wine event at Ostreme at some point in 2024 took place. This would include events such as wine tasting and a quiz. Entry would be through tickets that would cover the cost of the event. Local businesses to be used e.g. Cheers for wine and Olive & Oils for the cheese and crackers.

**ACTION**: Claire to make enquiries concerning suitable time for the event and obtaining quotes on relevant produce.

CT2310-15 **Christmas Markets/stalls outside the Ostreme on Saturdays**

Cllr Marshall opened the discussion on the opportunity to have stalls outside Ostreme on the Saturdays leading up to Christmas and suggested a themed event with arts and crafts for example being sold on week with locally grown produce being made available another week. Councillors were keen to provide opportunities for local businesses and promote Mumbles in the lead up to Christmas. Councillors were also concerned that such stalls could impact negatively on local businesses and that other events within MCC could be impacted upon. The need for trading licences to be provided by SCC was also discussed, as was the proposal that the event may be more appropriate for 2024 to allow arrangements to be made to book suitable stalls.

**ACTION**: Claire to make enquiries concerning the possibility of hosting stalls outside Ostreme Hall this Christmas and in 2024.

CT2310-16 **Christmas lunch at Newton Hall early December.**

Cllr Marshall outlined that £500 had been earmarked for a festive lunch for elderly people to be held in Newton Hall, he considered that by using funds from underspent budgets the contribution to the lunch could be greatly increased. In addition to the committees budget, it was suggested that money could be transferred from underspent budgets within the domain of the Community and Social Development Committee.

**ACTION**: Cllr Marshall to explore the options of using money from underspent budgets with RFO for the purpose of enhancing the Christmas Lunch at Newton Hall. In addition, Cllr Marshall to e-mail Cllr Pamela Erasmus and her deputy Sara Keeton with a view to seeking a transfer of underspent money for the same purpose.

CT2310-17 **Live entertainment and refreshment at the Coffee with Friends groups (Christmas).**

A discussion took place between balancing the needs and wishes of the participants who attend Coffee with Friends on a regular basis. In addition, the need to widen participation at Coffee and Friends through non-social media opportunities.

**RESOLVED** to seek the views of those attending Coffee and Friends in relation to entertainment being provided in the lead up to Christmas against the need to allow sufficient time for participants to socialise within their own groups. To consider widening the 'membership/participation' of coffee and Friends through advertising in The MCC Newsletter.

**ACTION**: Cllrs Marshall and O'Neill to seek the views of participants at the next Coffee and Friends Meetings.

**ACTION**: Claire to consider advertising Coffee and Friends either through an advert or in a separate notice enclosed within the next MCC Newsletter.

CT2310-18 **Future Events**

In addition to those events already outlined two further events were mooted. Firstly, a boules competition, possibly to co-inside and involve a twinning event. Secondly, a singing event at Christmas bringing together a number of choirs. Discussion included whether the event should be indoors and could include priced tickets for entry to raise money for local charities.

**RESOLVED** to further research the possibility of holding both events.

**ACTION**: Cllr Marshall to explore options in relation to a boules competition.

**ACTION**: Cllrs Marshall and O'Connor to explore opportunities for a Christmas Concert within area of MCC.

**The meeting ended at 7.41pm.**

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu
# Nos Fercher, 25 Hydref 2023, am 6.30pm
# Cyfarfod trwy gyfrwng Zoom yn unig

**Y Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Rob Marshall (Cadeirydd), Martin O'Neill, Tim Zhou, Angela O'Connor, Richard Jarvis, a Rhian Evans.

**Aelodau cyfetholedig:** Pip Reason

**Y Swyddogion yn bresennol**: Kerry-Leigh Grabham - Clerc, ac Ian Hughes - Swyddog Cymorth Pwyllgorau

CT2310-01 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Rhian Evans

CT2310-02 **Datganiadau o fuddiant**
Dim

CT2310-03 **Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Pwyllgor**
**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 fel cofnod cywir. Cynigwyd gan y Cynghorydd O'Neill ac eiliwyd gan y Cynghorydd Marshall.

CT2310-04 **Diweddariad ar gamau gweithredu blaenorol (27 Medi 2023)**

**PENDERFYNWYD** bod y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau bellach wedi eu diweddaru a'u cwblhau, a bod y manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu'. Ymunodd y Cynghorydd O'Connor â'r cyfarfod am 6.43pm wrth i'r camau gweithredu heb eu cwblhau cael eu trafod.

CT2310-05 **Diweddariad ar yr Aelod Cyfetholedig**
Cymeradwywyd aelodaeth Liz Fuller fel aelod cyfetholedig yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn. Eglurodd y Cynghorydd Marshall fod Liz Fuller, yn anffodus, yn annhebygol o fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn am ei bod yn ymweld â pherthynas yn yr ysbyty.

CT2310-06 **Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 31 Awst 2023**
Amlinellodd y Clerc bwyntiau allweddol Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

**PENDERFYNWYD** derbyn Adroddiad Monitro'r Gyllideb.

**Cyllideb 2024/2025**

CT2310-07 Trafodaeth ynghylch sut y gallai'r pwyllgor ddefnyddio ei gyllideb orau yn y flwyddyn i ddod gan gynnwys prosiectau a amlinellir isod mewn eitemau agenda ar wahân.

**CAM GWEITHREDU**: Pob cynghorydd i nodi meysydd/cyfleoedd lle na wariwyd ac i gyflwyno unrhyw gynigion yng nghyfarfod mis Tachwedd a chyflwyno Ffurflenni Cynnig Cyllideb i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol erbyn 30 Tachwedd 2023.

**Cynigion Cyllideb**

CT2310-08 Unwaith eto, bu llawer o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar brosiectau yr ymdrinnir â hwy isod. Yn ogystal, cytunwyd i archwilio opsiynau i'r Mwmbwls gael goleuadau ac addurniadau Nadolig newydd ar gyfer 2024.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd O'Connor ynghyd â'r Clerc i archwilio'r gost a'r opsiynau ar gyfer goleuadau/addurniadau Nadolig 2024.

**Cyflwyniad gan Paul Relf (Cyllid a Grantiau Cyngor Dinas a Sir Abertawe)**

CT2310-09 Nid yw Paul Relf yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor ar nos Fercher oherwydd ymrwymiad parhaus. Fodd bynnag, mae wedi cytuno i ddarparu pecyn gwybodaeth i Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Mae'r Clerc a'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau wedi anfon e-bost at Paul yn dilyn y cynnig hwn, ac mae'r Cynghorydd Marshall i fod i gwrdd â Paul o fewn y saith diwrnod nesaf a bydd yn gwneud cais pellach.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Marshall i wneud cais pellach i Paul Relf mewn perthynas â'r pecyn gwybodaeth y cynigiodd ei ddarparu i Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

**Diweddariad ar Ddigwyddiad Cymreig**

CT2310-10 Trafodwyd y cyfleoedd ar gyfer Digwyddiad Cymreig yn ystod y drafodaeth ar y camau gweithredu heb eu cwblhau CT2310-04 lle cytunwyd i gael eitem benodol ar gynnal digwyddiad ar 1 Mawrth 2024 ar agenda cyfarfod mis Tachwedd.

**PENDERFYNWYD** y byddai eitem agenda ar wahân yn cael ei chreu ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd i drafod dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

CT2310-11 **Cynnig Goleuadau'r Clogwyni**

Amlinellodd y Cynghorydd Marshall fod y dyfynbrisiau ar gyfer goleuo'r clogwyni wedi dyddio a bod Claire yn ymchwilio i gael dyfynbrisiau newydd.

**CAM GWEITHREDU**: Claire i wneud ymholiadau ynghylch dyfynbrisiau addas.

CT2310-12

**Cyfarpar Recordio a Ffrydio**

Trafododd y Cynghorydd Marshall y defnydd o dechnoleg iPhone i gofnodi a lledaenu gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol ar y cyfryngau cymdeithasol a mannau eraill. Er nad yw'r cyfarpar hwn sy'n hawdd ei ddefnyddio o reidrwydd yr opsiwn rhataf, byddai yn caniatáu defnydd helaeth gan yr holl staff a chynghorwyr.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Marshall i archwilio'r gost a'r opsiynau o ddefnyddio unedau iPhone ar gyfer cofnodi digwyddiadau o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

CT2310-13

**Gŵyl y Mwmbwls 2024**

Amlinellodd y Cynghorydd Marshall y byddai, ynghyd â'r Cynghorwyr O'Neill ac O'Connor a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, yn gweithio ar gynnig cadarn ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Marshall ar y cyd ag eraill i baratoi cynigion manwl ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 2024. Eitem agenda ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd.

CT2310-14

**Noson Caws a Gwin Nadolig**

Cafwyd trafodaeth ar gynnal digwyddiad caws a gwin yng Nghanolfan Ostreme rywbryd yn 2024. Byddai hyn yn cynnwys digwyddiadau fel blasu gwin a chwis. Byddai mynediad trwy docynnau a fyddai'n talu am gost y digwyddiad. Busnesau lleol i'w defnyddio e.e. Cheers ar gyfer y gwin, ac Olive & Oils ar gyfer y caws a'r cracers.

**CAM GWEITHREDU**: Claire i wneud ymholiadau ynghylch amser addas ar gyfer y digwyddiad a chael dyfynbrisiau ar gynnyrch perthnasol.

CT2310-15

**Marchnadoedd Nadolig/stondinau y tu allan i Ganolfan Ostreme ar ddydd Sadwrn**

Agorodd y Cynghorydd Marshall y drafodaeth ar y cyfle i gael stondinau y tu allan i Ganolfan Ostreme ar ddydd Sadwrn yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig ac awgrymodd ddigwyddiad â thema, gyda chelf a chrefft, er enghraifft, yn cael ei werthu un wythnos a chynnyrch a dyfir yn lleol ar gael yr wythnos wedyn. Roedd y cynghorwyr yn awyddus i roi cyfleoedd i fusnesau lleol a hyrwyddo'r Mwmbwls yn y cyfnod cyn y Nadolig. Roedd y cynghorwyr hefyd yn bryderus y gallai stondinau o'r fath effeithio'n negyddol ar fusnesau lleol ac y gellid effeithio ar ddigwyddiadau eraill o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Trafodwyd hefyd yr angen i Gyngor Dinas a Sir Abertawe ddarparu trwyddedau masnachu, ynghyd â'r cynnig y gallai'r

digwyddiad fod yn fwy priodol ar gyfer 2024 er mwyn caniatáu i drefniadau gael eu gwneud i drefnu stondinau addas.

**CAM GWEITHREDU**: Claire i wneud ymholiadau ynghylch y posibilrwydd o gynnal stondinau y tu allan i Neuadd Ostreme y Nadolig hwn ac yn 2024.

CT2310-16

**Cinio Nadolig yn Neuadd Newton ar ddechrau mis Rhagfyr**

Amlinellodd y Cynghorydd Marshall fod £500 wedi'i glustnodi ar gyfer cinio Nadoligaidd i'r henoed, i'w gynnal yn Neuadd Newton. Roedd o'r farn y gellid cynyddu'n sylweddol y cyfraniad at y cinio trwy ddefnyddio arian o gyllidebau lle'r oedd tanwariant. Yn ogystal â chyllideb y pwyllgor, awgrymwyd y gellid trosglwyddo arian o gyllidebau lle'r oedd tanwariant ym meysydd y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Marshall i archwilio'r opsiynau o ddefnyddio arian o gyllidebau lle'r oedd tanwariant gyda'r Swyddog Ariannol Cyfrifol at ddiben gwella'r Cinio Nadolig yn Neuadd Newton. Yn ogystal, y Cynghorydd Marshall i anfon e-bost at y Cynghorydd Pamela Erasmus a'i dirprwy Sara Keeton gyda golwg ar geisio trosglwyddo arian tanwariant i'r un pwrpas.

CT2310-17

**Adloniant byw a lluniaeth yn y grwpiau Coffi gyda Ffrindiau (Nadolig)**

Cafwyd trafodaeth ynghylch cydbwyso anghenion a dymuniadau'r cyfranogwyr sy'n mynychu Coffi gyda Ffrindiau yn rheolaidd. Yn ogystal, yr angen i ehangu cyfranogiad yn Coffi gyda Ffrindiau trwy gyfrwng dulliau heblaw'r cyfryngau cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD** ceisio barn y rhai sy'n mynychu Coffi gyda Ffrindiau ynglŷn â darparu adloniant yn y cyfnod cyn y Nadolig a'r angen i ganiatáu digon o amser i gyfranogwyr gymdeithasu o fewn eu grwpiau eu hunain. Ystyried ehangu 'aelodaeth/cyfranogiad' Coffi gyda Ffrindiau trwy hysbysebu yng nghylchlythyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorwyr Marshall ac O'Neill i ofyn am farn y cyfranogwyr yn y cyfarfodydd Coffi gyda Ffrindiau nesaf.

**CAM GWEITHREDU**: Claire i ystyried hysbysebu Coffi gyda Ffrindiau naill ai drwy hysbyseb neu mewn hysbysiad ar wahân wedi'i amgáu yng nghylchlythyr nesaf Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

CT2310-18

**Digwyddiadau yn y Dyfodol**

Yn ogystal â'r digwyddiadau hynny yr amlinellwyd eisoes, crybwyllwyd dau ddigwyddiad arall. Yn gyntaf, cystadleuaeth boules, o bosibl i gyd-fynd â digwyddiad gefeillio ac i gynnwys y digwyddiad hwnnw. Yn ail, digwyddiad canu dros y Nadolig gan ddod â nifer o gorau ynghyd. Trafodwyd a ddylid cynnal y

digwyddiad dan do lle gellid caniatáu mynediad drwy bris tocyn er mwyn codi arian i elusennau lleol.

**PENDERFYNWYD** gwneud ymchwil pellach i'r posibilrwydd o gynnal y ddau ddigwyddiad.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorydd Marshall i archwilio'r opsiynau ynglŷn â chystadleuaeth boules.

**CAM GWEITHREDU**: Y Cynghorwyr Marshall ac O'Connor i archwilio'r cyfleoedd ar gyfer cynnal Cyngerdd Nadolig o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.41pm**